

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref
Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2020

The A55 Trunk Road (Pen-y-clip
Tunnel, Conwy County Borough)
(Temporary Traffic Prohibitions &
Restrictions) Order 2020

Gwnaed 30 Rhagfyr 2020

Made 30 December 2020

Yn dod i rym 5 Ionawr 2021

Coming into force 5 January 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu ei chyfyngu ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 5 Ionawr 2021.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Pen-y-clip Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020 and it comes into force on 5 January 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“edge of the carriageway markings” (“*marciau ymyl y gerbyttfordd*”) means the markings shown at Diagram numbers 1002.1 and 1004 in the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 2016/362.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 5 Ionawr 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “marciau ymyl y gerbyttffordd” (“*edge of the carriageway markings*”) yw'r marciau a ddangosir yn rhifau Diagram 1002.1 a 1004 yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(3).

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai gerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(3); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 5 January 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageways of the length of trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4.—(1) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the eastbound carriageway but, pursuant to article 11, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any vehicle to:

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(3) O.S. 2016/362.

(3) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8(2), paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

- (a) mynd ar lôn allanol y gerbyttfordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain;
- (b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

- (a) mynd ar lôn allanol y gerbyttfordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin;
- (b) defnyddio neu ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd cerbyd arall ar gerbyttfordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;
- (c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

11.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'u dangosir

- (a) proceed in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards;
- (b) proceed in any direction other than eastwards through the gaps in the central reservation of the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

(2) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the westbound carriageway but, pursuant to article 11, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any vehicle to:

- (a) proceed in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards;
- (b) use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order;
- (c) proceed in any direction other than westwards through the gaps in the central reservation of the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedules 3 and 4 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

8. No person, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 6 to this Order.

9. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 7 to this Order.

10. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 8 to this Order.

Application

11.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

12. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Ardal Pen-y-clip, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1994(4) wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â lon allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gerbyttffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

13. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar neu'n dileu cyfyngiadau cyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Rhagfyr 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 Y gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

(4) O.S. 1994/192.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspensions

12. The provisions of The Trunk Road (A55) (Pen-y-clip Section, Gwynedd) (One Way Traffic) Order 1994(4) are suspended insofar as they relate to the offside lane of the eastbound carriageway of the length of trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the westbound carriageway is closed in accordance with article 3.

13. Any statutory provisions restricting or derestricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6 and 7 are in operation.

Duration of this Order

14. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 December 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1 Contraflow

The length of the trunk road that extends from a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

(4) S.I. 1994/192.

ATODLEN 2
Dim goddiweddyd

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar y pentir sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

ATODLEN 3
Cau Cyffordd Gorllewin Penmaenmawr a Ffordd Ymadael tua'r Dwyrain Cyffordd 15a

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sirol a elwir Ffordd Bangor hyd at farciau ymyl y gerbyttfordd ar ochr ddeheuol prif gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 15a.

ATODLEN 4
Gwahardd cerbydau dros dro (cyfnodau byr yn unig) a therfyn cyflymder 40 mya a/neu 50 mya

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 13 (pentref Abergwyngregyn), hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 15a a'r bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys ffordd ymuno tua'r gorllewin y gyffordd hon, hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

ATODLEN 5
Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwllch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables a phwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o'r drosbont honno.

Y bwllch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 226 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan honno.

SCHEDULE 2
No overtaking

The length of the eastbound headland carriageway of the trunk road that extends from a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

SCHEDULE 3
Closure of Penmaenmawr West Junction & Junction 15a Eastbound Exit Slip Road

The length of the trunk road that extends from its junction with the county road known as Ffordd Bangor to the edge of the carriageway markings on the southern side of the main westbound carriageway of the trunk road.

The length of the eastbound exit slip road of the trunk road at Junction 15a.

SCHEDULE 4
Temporary prohibition of vehicles (short periods only) & 40 mph and/or 50 mph speed limits

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of the eastbound off slip splitter island at Junction 13 (Abergwyngregyn village) to a point 100 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the eastbound entry slip road at Junction 14 (Madryn Interchange), the eastbound exit slip road at Junction 15a and the central reserve gaps in Schedule 5 to this Order.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 100 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip road at this junction, to the centre-point of the over-bridge at Junction 14 (Madryn Interchange), including the central reserve gaps in Schedule 5 to this Order.

SCHEDULE 5
Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 78 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge and a point 208 metres east of that over-bridge.

The gap in the central reservation situated between a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 226 metres east of that roundabout.

ATODLEN 6
Cyfyngiad ar led cerbydau

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a Chyffordd 17.

ATODLEN 7
Gwahardd beicwyr

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ynys hollti Cyffordd 14, i gyfeiriad y dwyrain o amgylch Pentir Pen-y-clip i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip, gan gynnwys y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip.

ATODLEN 8
Gwahardd cerddwyr

Y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip.

SCHEDULE 6
Vehicle width restriction

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 18 and Junction 17.

SCHEDULE 7
Prohibition of cyclists

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nose of the splitter island for Junction 14, eastbound around Pen-y-clip Headland to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel, including the length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.

SCHEDULE 8
Prohibition of pedestrians

The length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(TWNNEL PEN-Y-CLIP, BWRDEISTREF SIROL
CONWY) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55 yn Nhwnnel Pen-y-clip, Conwy, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Cau'r cerbytyffyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin, am yn ail â'i gilydd, ar y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau yr effeithir arno gan gau'r gerbytyffordd tua'r dwyrain fydd mynd ar hyd y gwrthlif yn lôn allanol y gerbytyffordd tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.
- ii. Gwahardd goddiweddyd ar y darn o gerbytyffordd tua'r dwyrain yr A55 ar y pentir a ddisgrifir yn Atodlen 2 a rheoli symudiad y traffig drwy fylchau yn y llain ganol (fel a ddisgrifir yn Atodlen 5) y ddwy ochr i'r Twunnel, a gaiff ei ailagor yn ystod y gwaith, tra bo'r gwrthlif tua'r dwyrain neu'r gorllewin yn weithredol.
- iii. Cau'r darn o'r A55 a ddisgrifir ym mharagraff 1 o Atodlen 3 tra bo gwrthlif y gerbytyffordd tua'r dwyrain (y pentir) yn weithredol. Ni fydd cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yn gallu ymuno â'r gefnffordd o Ffordd Bangor. Y llwybr arall fydd drwy Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin).
- iv. Cau'r darn o'r A55 a ddisgrifir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 tra bo'r gwrthlif ar y gerbytyffordd tua'r gorllewin yn weithredol. Y llwybr arall fydd parhau tua'r dwyrain i Gyffordd 16.
- v. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya a/neu 50 mya ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 4.
- vi. Gwahardd cerbydau sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 6, ac eithrio cerbydau a awdurdodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Disgrifir y llwybr arall hefyd yn yr Atodlen hon.
- vii. Gwahardd beicwyr rhag mynd ar y darnau o'r

**THE A55 TRUNK ROAD (PEN-Y-CLIP
TUNNEL, CONWY COUNTY BOROUGH)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &
RESTRICTIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at the Pen-y-clip Tunnel, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Close, alternately, the eastbound and westbound carriageways of the length of the A55 described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route for vehicles affected by an eastbound closure will be via contraflow in the offside lane of the westbound carriageway: vice versa for westbound vehicles.
- ii. Prohibit overtaking on the eastbound headland carriageway of the length of the A55 described in Schedule 2 and control the movement of traffic through gaps in the central reservation (as described in Schedule 5) either side of the Tunnel, which will be re-opened during the works, whilst eastbound or westbound contraflow is in operation.
- iii. Close the length of the A55 described in paragraph 1 of Schedule 3 while the eastbound carriageway (headland) contraflow is in operation. Vehicles travelling westbound will not be able to enter the trunk road from Ffordd Bangor. The alternative route will be via Junction 16 (Puffin Roundabout).
- iv. Close the length of the A55 described in paragraph 2 of Schedule 3 whilst contraflow is in operation on the westbound carriageway. The alternative route will be to continue eastbound to Junction 16.
- v. Impose a 40 mph and/or 50 mph speed limit on the lengths of the A55 described in Schedule 4.
- vi. Prohibit vehicles with a width of or exceeding 3.2 metres from proceeding on the lengths of the A55 specified in Schedule 6, with the exception of vehicles authorised by North Wales Police. The alternative route is also described in this Schedule.
- vii. Prohibit cyclists from proceeding on the

A55 a bennir yn Atodlen 7. Disgrifir y llwybr arall yn Atodlen 9.

viii. Gwahardd cerddwyr rhag mynd ar y darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 8. Disgrifir y llwybr arall yn Atodlen 9.

ix. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 4. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau, a disgwylir mai am gyfnodau byr y byddant yn para, a hynny yn ôl yr angen. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol, ond dylai traffig sy'n dymuno gadael yr A55 wrth Gyffordd 15a, adael wrth Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) yn lle hynny.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 5 Ionawr 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn gweithredu'n ysbeidiol dros nos (19:00 – 07:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn cael ei arddangos cyn pob cyfnod gwaith.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 **Y gwrthlif**

Y darn o'r A55 sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

ATODLEN 2 **Dim goddiwedd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 ar y pentir sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o

lengths of the A55 specified in Schedule 7. The alternative route is described in Schedule 9.


viii. Prohibit pedestrians from proceeding on the length of the A55 specified in Schedule 8. The alternative route is described in Schedule 9.

ix. Prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 specified in Schedule 4. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and are expected to be for short periods, as required. No diversionary routes are necessary but traffic wishing to leave the A55 at Junction 15a should instead leave at Junction 16 (Puffin Roundabout).

The Order will come into force at 19:00 hours on 5 January 2021 and the temporary prohibitions and restrictions are expected to operate intermittently overnight (19:00 – 07:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Notice of the prohibitions and restrictions will be displayed in advance of all work periods.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1 **Contraflow**

The length of the A55 that extends from a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

SCHEDULE 2 **No overtaking**

The length of the A55 eastbound headland carriageway that extends from a point 97 metres east

ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

ATODLEN 3

Cau Cyffordd Gorllewin Penmaenmawr a Ffordd Ymadael Tua'r Dwyrain Cyffordd 15a

Y darn o'r A55 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sirol a elwir Ffordd Bangor hyd at farciau ymyl y gerbyttffordd ar ochr ddeheuol prif gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A55.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 15a.

ATODLEN 4

Gwahardd cerbydau (cyfnodau byr yn unig) a therfynau cyflymder o 40 mya a/neu 50 mya

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 13 (pentref Abergwyngregyn) hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 15a a'r bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y gyffordd hon, hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 5.

ATODLEN 5

Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwlc yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables a phwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o'r drosbont honno.

Y bwlc yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 226 o fetrau i'r dwyrain o'r cylchfan honno.

ATODLEN 6

Cyfyngiad ar led cerbydau a'r llwybr arall

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd

of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

SCHEDULE 3

Closure of Penmaenmawr West Junction & Junction 15a Eastbound Exit Slip Road

The length of the A55 that extends from its junction with the county road known as Ffordd Bangor to the edge of the carriageway markings on the southern side of the main A55 westbound carriageway.

The length of the A55 eastbound exit slip road at Junction 15a.

SCHEDULE 4

Prohibition of vehicles (short periods only) & 40 mph and/or 50 mph speed limits

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of the eastbound exit slip road splitter island of Junction 13 (Abergwyngregyn village) to a point 100 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the eastbound entry slip road at Junction 14 (Madryn Interchange), the eastbound exit slip road at Junction 15a and the central reserve gaps specified in Schedule 5.

The length of the A55 westbound carriageway that extends from a point 100 metres east of the centre point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip road at this junction, to the centre-point of the over-bridge at Junction 14 (Madryn Interchange), including the central reserve gaps in Schedule 5.

SCHEDULE 5

Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 78 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge and a point 208 metres east of that over-bridge.

The gap in the central reservation situated between a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 226 metres east of that roundabout.

SCHEDULE 6

Vehicle width restriction and alternative route

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction

18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a Chyffordd 17.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yn ystod oriau golau dydd fydd gadael yr A55 wrth Gyffordd 19 a dilyn yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed a'r A5 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11 (Llandygái): i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain. O ran yr adegau eraill pan fydd y ffordd ar gau, bydd dau fan cynnull ar gael y ddwy ochr i'r Twannel. Codir arwyddion ynglŷn â'r rhain gyda rhif ffôn i lorïwyr allu cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i gael cyngor. Nid oes disgwyl i'r cerbydau gael eu cadw yn y manau cynnull hyn am gyfnodau estynedig.

ATODLEN 7 Gwahardd beicwyr

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad ynys holli Cyffordd 14, i gyfeiriad y dwyrain o amgylch Pentir Pen-y-clip i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip, gan gynnwys y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip.

ATODLEN 8 Gwahardd Cerddwyr

Y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twannel Pen-y-clip.

ATODLEN 9 Y llwybr arall ar gyfer beicwyr a cherddwyr

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n mynd tua'r dwyrain fydd dilyn Llwybr Beicio 5, gan adael yr A55 wrth Gyffordd 14, a theithio ar Ffordd Aber, Ffordd Penmaenmawr, Pendalar a'r Llwybr Traffig heb Dwnnel o amgylch pentir Pen-y-clip i Benmaenmawr: i'r gwrthwyneb ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n mynd tua'r gorllewin.

18 (Llandudno Junction Interchange).

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 18 and Junction 17.

The alternative route for westbound vehicles during daylight hours will be to leave the A55 at Junction 19 and follow the southbound A470 to Betws-y-Coed and the westbound A5 to re-join the A55 at Junction 11 (Llandygai): vice versa for eastbound vehicles. For closures during other times two holding areas either side of the Tunnel will be available. These will be signed with a phone number for hauliers to contact North Wales Police for advice. It is not expected that vehicles will be held at these areas for extended periods.

SCHEDULE 7 Prohibition of cyclists

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the nose of the splitter island for Junction 14, eastbound around Pen-y-clip Headland to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel, including the length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.

SCHEDULE 8 Prohibition of pedestrians

The length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.

SCHEDULE 9 Alternative route for cyclists and pedestrians

The alternative route for eastbound cyclists and pedestrians will be to follow Cycle Route 5, leaving the A55 at Junction 14, travelling via Aber Road, Penmaenmawr Road, Pendalar and the Non Tunnel Traffic Route around Pen-y-Clip headland to Penmaenmawr: vice versa for westbound cyclists and pedestrians.